OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 1904 (Cy.231)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Swyddogaethau Atodol a Dirymu) 2012

Gwnaed - - - -	*18 Gorffennaf 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*19 Gorffennaf 2012*
Yn dod i rym - -	*31 Awst 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 69(5) a 89(4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Swyddogaethau Atodol a Dirymu) 2012 a daw i rym ar 31 Awst 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

(a) ystyr "Rheoliadau 2011" ("*the 2011 Regulations*") yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu'r Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2011(**3**); a

(b) mae i "grant newydd at ffioedd" ("*new fee grant*") yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 2(1) o Reoliadau 2011.

Dirymu

2. Mae Gorchymyn Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Swyddogaethau Atodol) 2011(**4**) wedi ei ddirymu ar 31 Awst 2012.

(**1**) 1992 p.13; diwygiwyd adran 89(4) gan Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddi 2007 (p.25), adran 29 ac Atodlen 1, paragraff 11.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 69(5), i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny'n arferadwy gan Weinidogion Cymru.
(**3**) O.S. 2011/886 (Cy.130).
(**4**) O.S. 2011/965 (Cy.139).